

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi crynodeb o'r rhaglenni a gynigir o fis Medi 2022. A fyddech cystal â nodi y gallai'r rhain gael eu haddasu a'u newid yn y dyfodol. Ymgynghorir â myfyrwyr bob amser ynglŷn â newidiadau o'r fath a bydd manylion ar gael i ymgeiswyr sydd â chynigion. Er mwyn symud drwy'r cwrs bydd angen i'r myfyrwyr fel arfer basio pob modiwl ac ennill 120 credyd

Gwybodaeth am y Modiwlau	
Perfformio Llais	40 credyd
Prosiect Ensemble	20 credyd
Sgiliau Iaith	20 credyd
Actio a Gwaith Testun	20 credyd
Ymarfer Myfyriol	20 credyd

Perfformio Llais

Credydau: 40

Asesiad: Ymarferol (dau berfformiad)

Bydd y modiwl yn rhedeg drwy gydol y flwyddyn academiaidd. Bydd gwersi unigol a hyfforddiant llais, ynghyd â dosbarthiadau iaith a chyflwyno yn datblygu'r feistrolaeth dechnegol a'r sgiliau dehongli sydd eu hangen i wireddu bwriadau artistig unigol a chyflwyno datganiad lleisiol yn hyderus. Bydd ymarfer personol yn cyfrannu'n sylweddol, gyda chefnogaeth dosbarthiadau perfformio, dosbarthiadau meistr a pherfformiadau cyhoeddus gan artistiaid ar ymweliad. Bydd yr asesiad repertoire yn canolbwyntio ar berfformio repertoire Eidaleg a Saesneg, tra bydd y datganiad terfynol yn rhoi cyfle i adeiladu rhaglen sy'n cynnwys amrywiaeth o arddulliau cerddorol gan adlewyrchu diddordebau artistig yr unigolyn.

Prosiect Ensemble

Credydau: 20

Asesiad: Ymarferol (Prosiect Corawl a Phrosiect Golygfeydd)

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar y sgil o weithio'n effeithiol fel rhan o ensemble mewn amrywiaeth o gyd-destunau – golygfeydd opera, parti cyngerdd neu gyfuniadau ensemble eraill. Drwy rihysal, anogir myfyrwyr i gydweithio mewn modd proffesiynol, gan gyfrannu at greu'r prosiect yn ogystal â rhyngweithio'n gerddorol a dramatig, cynnig syniadau yn ogystal ag ymateb i syniadau cydweithwyr. Datblygir hefyd ruglder mewn rheoli gofynion cyfathrebu perfformiad cyhoeddus o fewn cyd-destun ensemble.

Sgiliau Iaith

Credydau: 20

Asesiad: Ymarferol (Prawf Iaith)

Mae'r modiwl hwn yn datblygu gwybodaeth weithiol a dealltwriaeth o ramadeg, ynganiad a hefyd elfennau sgysiol yn y prif ieithoedd canu sef Eidaleg, Ffrangeg, Almaeneg a Saesneg. Mae'n darparu strategaethau ar gyfer paratoi repertoire yn annibynnol yn ogystal â chanolbwyntio ar ddehongli a chyfathrebu testun i gyd-fynd â'r arddull gerddorol. Rhoddir sylw i strategaethau i ddatblygu arfer da mewn paratoi gan ddefnyddio cyfieithiad a'r Wyddor Ffonetig Ryngwladol (IPA).

Actio a Gwaith Testun

Credydau: 20

Asesiad: Ymarferol (cyflwyniad aria ac adroddiad monolog)

Mae'r modiwl hwn yn datblygu ymwybyddiaeth uwch o gyfathrebu drwy nodweddion y corff a sut i gyfuno hyn â thestun. Datblygir natur gorfforol cyflwyniad dramatig, a bydd myfyrwyr yn canolbwyntio ar werthuso ac ymateb i gymeriad a sefyllfaoedd cymeriad tra'n datblygu eu dealltwriaeth o gyd-destunau dramatig. Bydd y modiwl hwn yn cynnig strategaethau ar sut i dderbyn cyfarwyddyd a gwneud dewisiadau dramatig priodol.

Ymarfer Myfyriol

Credydau: 20

Asesiad: Portffolio (3,000 o eiriau) a Chyflwyniad (10 munud)

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno ystod o fframweithiau myfyriol, sy'n caniatáu i fyfyrwyr nodi eu llwybrau ar gyfer datblygiad ar draws gwahanol feysydd y cwrs. Bydd seminarau'n ymchwilio ystod o faterion a senarios sy'n berthnasol i'r amgylchedd cyfredol (conservatoire a phroffesiynol). Bydd myfyrwyr yn datblygu perchnogaeth bersonol o'u datblygiad creadigol drwy weithio ar ystod o dasgau cysylltiedig â'r cwrs, gan gynnwys gosod targedau, arferion gweithio effeithiol, gwytnwch mewn perfformiad, hunanreolaeth a chyfathrebu hyderus (llafar ac ysgrifenedig).